Eddie Jones

PWYLLGOR ADDYSG CEREDIGION

RHAGLEN

SEREMONI AGORIADOL

YSGOL GYNRADD NEWYDD

RHYDYPENNAU

dydd Gwener, Mawrth 8, 1974

am 2 o'r gloch

gan

Mr. J. E. R. CARSON, LL.B., L.M.R.T.P.I.
(Clerc Cyngor Sir Ceredigion
a chyn-ddisgybl yr Ysgol)

Print/The Cambrian News, Aberystwyth

Yr Hen Ysgol

Yr Ysgol Newydd

Disgyblion 1974

Uned Feithrin

Ysgol Gynradd

Ald. W. M. Davies, J.P.
(Chairman Education Committee)



W. J. Phillips, Esq., M.A., LL.B.,
(Director of Education)

G. R. Bruce, Esq., A.R.I.B.A.
(County Architect)

J. E. R. Carson, Esq.,
LL.B., L.M.R.T.P.I.
(Clerk of the County Council)

YSGOL RHYDYPENNAU

Hen le braf ar ael y bryn,
Hen le antur pob plentyn,
Erys fel plas urddasol
Ar waun deg rhwng bryn a dôl,
Addurn bro i gofio gwaith
Gwŷr a'u hoffter at grefftwaith.
Daeth enwogion ohoni
Yn wŷr brwd yn fawr eu bri,
Gwŷr fu'n sêr mewn llawer llan
Yn haul hefyd ar lwyfan,
Dyddiau aur ei chlodydd hi
O seddau'r uchel swyddi.
I ni caed ysgol newydd,
Un gain o feini a gwŷdd ;
Hoff le athrawon a phlant,
Hwyl iddi a mawr lwyddiant
I'r iaith o hyd i barhau
Heb huno'n Rhydypennau.

IFOR DAVIES.

RHAGLEN

Cadeirydd : Y Cynghorwr E. VERNON JONES
(Cadeirydd Pwyllgor Addysg Cylch Aberystwyth).

Bendith : Gwasanaeth gan y plant a'r Parchedig D. R. PRITCHARD.

1. Cyflwyno'r Plac i Mr. J. E. R. CARSON gan y Pensaer
(G. R. BRUCE, Ysw., A.R.I.B.A.)

2. *Anerchiadau gan* :
   (a) Yr Henadur W. M. DAVIES, Y.H. (Cadeirydd y Pwyllgor Addysg).
   (b) Mr. ELYSTAN MORGAN, LL.B.
   (c) Mr. W. J. PHILLIPS, M.A., LL.B. (Cyfarwyddwr Addysg).
   (d) Mr. EDDIE JONES (Prifathro).

3. Cyflwyno Blodau i Mrs. J. E. R. Carson a Mrs. Elystan Morgan.

4. *Diolchiadau* :
   I gynnig : Cynghorwr J. O. MORGAN (Aelod Lleol).
   I eilio : Mr. D. MORGAN (Cadeirydd Pwyllgor Rhieni ac Athrawon.)

5. *Bendith* : Y Parchedig MALDWYN GRIFFITHS.

6. *Bendith cyn Bwyd* : Y Parchedig IRFON EVANS.

Darperir lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y rhaglen.

PROGRAMME

Chairman : Councillor E. VERNON JONES
(Chairman Aberystwyth D.E.C.)

Benediction: Service by the children and the Reverend D. R. PRITCHARD.

1. Presentation of the Plaque to Mr. J. E. R. CARSON, by the County Architect (G. R. BRUCE, Esq., A.R.I.B.A.)

2. *Addresses by* :
   (a) Alderman W. M. DAVIES, J.P., (Chairman of the Education Committee).
   (b) Mr. ELYSTAN MORGAN, LL.B.
   (c) Mr. W. J. PHILLIPS, M.A., LL.B. (Director of Education).
   (d) Mr. EDDIE JONES (Headteacher).

3. Presentation of Bouquets to Mrs. J. E. R. Carson and Mrs. Elystan Morgan.

4. *Vote of Thanks* :
   To propose : Councillor J. O. Morgan (Local Member).
   To second : Mr. D. MORGAN (Chairman of the Parents/Teachers' Association).

5. *Benediction* : The Reverend MALDWYN GRIFFITHS.

6. *Grace before refreshments* : The Reverend IRFON EVANS.

Light refreshments will be served at the conclusion of the ceremony.

EMYN

Gyfrannwr pob bendithion
Ac Awdur deall dyn,
Gwna ni yn wir ddisgyblion
I'th annwyl Fab dy Hun ;
Drwy bob gwybodaeth newydd
Gwna ni'n fwy doeth i fyw ;
A gwisg ni oll ag awydd
Gwasanaethu dynol-ryw.

Rho inni ysbryd gweddi,
Rho inni wefus bur ;
Rho gymorth mewn caledi
I lynu wrth y gwir ;
Yng nghynnydd pob gwybodaeth
Glanha, cryfha ein ffydd ;
Ym mhob rhyw brofedigaeth
Dysg inni rodio'n rhydd.

(ELFED).

:: :: :: :: :: :: :: :: ::

HANES YR HEN YSGOL GAN MR. E. D. JONES, B.A.

(*Prifathro Ysgol Gynradd Rhydypennau* 1939-1966)

Cyn 1870

O Gofnodion y Festri, Eglwys Llanfihangel-genau'r-glyn : " On the 27th April, 1740, there came to them Thomas Pryse of Gogerthan Esquire who then exhibited a bond of £60 to ye Churchwardens of ye parish, being a legacy left by one David John by his last will and testament towards ye keeping of a Charity School in ye aforesaid parish Church and its interests yearly to be paid to ye aforesaid Church for ever". Yn 1763 ychwanegwyd £60 eto at y gwaddol gan " David Jones, late of Clingwyn, yeoman ": ac yn 1804 y mae cyfeiriad at dalu'r athro, Mr. W. Egerton. Yr oedd hi yn ysgol rad i rai o blant y plwyf, o blith Eglwyswyr yn ogystal ag Enwadau eraill, a dewisid y *rhydd*-ysgolheigion hyn drwy goelbren.

O 1808 ymlaen,—os mai'r un ysgol ydoedd yn wir—, Ysgol Ramadeg oedd yma a gynhelid yn yr Ysgoldy ar y bryn gerllaw, a llawer

iawn o'r ysgolheigion yn myned ymlaen i Ysgol Edward Richards, Ystrad Meurig ac oddi yno amryw ohonynt i Rydychen a Chaergrawnt, a dod i safleoedd amlwg mewn byd ac eglwys wedi hynny : y rhyfeddaf un ond odid,—nid y dyn wrth gwrs ond y safle debyg iawn—, oedd mab y Wallog wedi bod yn ysgolor o Goleg yr Iesu yn Rhydychen, yn cael swydd yng ngwasanaeth milwrol y Swltan !

Un o'r ysgolfeistri olaf yn Llanfihangel oedd gŵr o'r enw Herbert, gŵr un fraich; a'r pryd hwnnw adwaenid yr Ysgol, yn lleol o leiaf, fel ' Ysgol Herbert '. Erbyn hynny ceisid gorfodi'r ysgolheigion i fynychu'r llan ar y Sul. Erbyn 21ain Gorffennaf, 1879, yr oedd hi wedi cau,—fel y gwelir o dan *Curriculum, etc.*—, a phump o blant oddi yno yn cael eu derbyn i Ysgol Rhydypennau.

Am drigain mlynedd buasai'n fagwrfa i wŷr teilwng o unrhyw athrofa,—megis Robert Roberts, Richard Lumley, Lewis Edwards, y Dr. William James, David Adams, ac yn ddiweddarach Robert Bishop a'r Athro W. Jenkin Jones, M.A., a llu eraill.

Yr oedd mwy nag un ysgol,—rhai preifat a byrhoedlog yn ddiau—, yn Bow Street cyn agor Ysgol Rhydypennau. Dywedir mai ym Mhenrhiw y bu'r gyntaf : ysgol i'r plant ieuaf ydoedd, a phan fyddent yn hŷn aent naill ai i Ysgol Clarach neu i Ysgol Llanfihangel. Bu hefyd ysgol mewn ystafell fechan rywle yn agos i'r Swyddfa Bost bresennol. Yn Y Llyfrau Gleision 1847 y mae cyfeiriad clodfawr at " Pen-y-garn private school." Meddai Symons, un o'r Comisiynwyr, " I have found far more progress and acquirement in this school than in most others, owing to the natural ability and unusually good education of the teacher . . . Jane Thomas." Tybed ai hon oedd yr ysgol,—dame school, debygir—, a gynhelid ar llofft yr hen Dŷ Capel ? Gwyddys fod yno ysgol am gyfnod byr 1855-6. Yn Bow Street hefyd yr oedd Ysgoldy Lady Pryse, a deil " Tŷ Mistress " ar lafar i'n hatgoffa o Margaret Jane Jones.

Y mae'n debygol fod yma un o Ysgolion Cylchynol Griffith Jones, Llanddowror o'r ddeunawfed ganrif, ysgol Gymraeg rad, yn Aberceiro Fach ar fin y ffordd gyferbyn â'r lôn bresennol i Aberceiro. Daeth wedyn yr Ysgolion Sul, mawr eu dylanwad drwy'r ganrif ganlynol. Cynhelid un ohonynt ym Mhwllglas pan oedd J. J. Williams (1869-1953) eto'n blentyn yn mynychu Ysgol Ddyddiol Rhydypennau, ond gan John Oliver, yn yr Ysgol Sul honno, y clywodd stori Clychau Cantre'r Gwaelod gyntaf erioed, a'i llunio 'mhen y rhawg yn delyneg mor dlos.

Agorwyd Ysgol Rhydypennau ym mis Mawrth yn y flwyddyn 1896, a'r Meistr cyntaf arni oedd Mr. David W. Evans a gynorthwyid gan un

disgybl athro. Dysgid Ffrangeg, fel un o'r Pynciau Penodol, i'r Safonau Uchaf, ac yn Saesneg yr oedd holl wersi'r ysgol o'r brig i'r bôn. Ymhen blwyddyn yr oedd y Welsh Not yma, h.y. y gwaharddiad rhag siarad Cymraeg nac yn yr ysgol nac ar y maes chwarae : a'r bwriad oedd hyrwyddo cynnydd y plant mewn Saesneg. Ymddiswyddodd Mr. Evans yn Awst 1877 a symud i Huddersfield lle y bu yn dra llwyddiannus am flynyddoedd lawer yn Athro Cerdd yng ngwasanaeth y Bwrdd Ysgol yno.

Byr fu arhosiad ei olynydd Mr. James James yma oherwydd gwaeledd iechyd. Dilynwyd ef fel Meistr gan Mr. John Evans, yn niwedd Ionawr 1879. Gosododd ardd flodau wrth yr Ysgol a dysgu Elfennau Gwyddoniaeth i'r Safonau Uchaf. Dros y blynyddoedd casglodd samplau o hyn ac arall yn ymwneud â Gwyddoniaeth a Daearyddiaeth, a galw'r casgliad yn ' Museum'. Sefydlodd Lyfrgell Fenthyg i'r Safonau Uchaf drwy gyflwyno tua chant o'i lyfrau ef ei hun i ddechrau, a chynnal cyngerdd codi pres i'r pwrpas yn awr ac yn y man. Cododd Ffrangeg ei phen unwaith eto yn 1890 : mynnai'r Bwrdd neilltuo un wers o hanner awr y dydd i ddysgu'r iaith honno. Yn 1892 ymddeolodd Mr. Evans a mynd yn is-arolygydd ym Morgannwg.

Cychwynodd Mr. J. M. Williams, yn Feistr yr Ysgol yn Ebrill 1892. Yn 1895 y daeth y llyfrau Cymraeg cyntaf i'r ysgol, sef ' Straeon Hanes ' cyfres ddwyieithog, yn ddiau ar anogaeth Mr. L. J. Roberts, y Cerddor o Aberaeron, awdur y dôn ' Sychu'r Dagrau' : fe'i penodwyd yn Arolygydd ysgolion ryw flwyddyn neu ddwy cyn hynny. Yn 1894 am y tro cyntaf yn hanes yr Ysgol, y gwelwyd caneuon Cymreig ymhlith rhai Saesneg ar restr y Caneuon i'r Dysgu ar Raglen Waith yr Ysgol :— Rhyfelgyrch Cadben Morgan, Nos Galan, Morfa Rhuddlan, a dwy gân Saesneg yn Safonau 3-7 ; Rhyfelgyrch Cadben Morgan a phedair cân Saesneg yn Safonau I, II a'r Plant Ieuaf ! Cyn hynny, caneuon Saesneg a ddysgid o'r bron hyd yn oed i'r Plant Ieuaf. Bellach yr oedd y Gymraeg yn cael ei phig i mewn ond ofnid yn aruthr rhag iddi gymryd gormod o afael yng ngwaelod yr Ysgol. Manteisiodd yr ardal yn fawr ar lafur Mr. J. M. Williams : codwyd yma feirdd a llenorion a dringodd amryw i safleoedd anrhydeddus Bu farw, wedi hir nychtod, yn 1906.

Cymerodd Mr James Davies at ofalaeth yr Ysgol ym Medi 1906. Yn ei flynyddoedd cynnar yma arferai gynnal Ysgol Nos yn ogystal. 'Doedd dim sôn fod piano yn yr ysgol cyn ei ddyfod ef, ond buan yr aeth ati i sicrhau yr offeryn hwn at wasanaeth yr ysgol. Yn ystod ei oruchwyliaeth ef y cafwyd gwersi Coginio undydd yr wythnos i'r merched hŷn. Erbyn yr Ugeiniau cynnar llwyddasai i drefnu bod pryd

rhad o fwyd yn dwym ganol dydd i'r plant na allai fynd adre' i ginio : paratoid y pryd gan yr athrawesau drwy gydol y gaeaf : yn hyn o beth yr oedd yn arloeswr,—yn dangos y ffordd i'r Awdurdodau Addysg.

At hyn yr oedd yn ŵr cyhoeddus, yn gynrychiolydd yr athrawon ar Bwyllgor Addysg y Sir am flynyddoedd lawer. Gadawodd yntau ei ôl ar yr ardal ac y mae llawer o'i phlant yn ddyledus iddo am eu rhoddi ar ben eu ffordd.

:: :: :: :: :: :: :: ::

ATODIAD gan D.E.M.

Bu Mr. E. D. Jones, B.A., yn Bennaeth ar yr ysgol o 1939 hyd 1966. Buan y daeth yn amlwg ym mywyd crefyddol, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal. Yn ŵr o wybodaeth ac o ddiddordebau eang, meddai ar arddull a ymddangosai i'r anghyfarwydd braidd yn chwyrn hyd nes y doed i adnabod ei ffraethineb a'i addfwynder gwaelodol. Gwaddolwyd ef â'r ddawn fawr i ennyn brwdfrydedd ac i ysbrydoli dychymyg ei ddisgyblion, gan roddi iddynt beunydd, awgrym o ddeimensiwn anfesuradwy dysg. Brithid ei wersi gan fynych gyfeiriadau at hanes, ieithoedd, llenyddiaeth, athroniaeth, etc. Cawsai cerddoriaeth le blaenllaw yn amserlen yr ysgol ac fe drwythodd lawer tô o blant yn hanfodion sol-ffa. I'w ran ef y daeth y dasg o lywio'r Ysgol trwy brofiadau anodd yr Ail Ryfel Byd. Buan y gwnaeth y ffoaduriaid yn gartrefol gan godi iddynt gwr y llen ar ogoniant Cymru a'i hiaith. Mae'n hyfryd nodi ei fod ef a'i briod yn para i gartrefu yn ein plith, a'i fod mor wreiddiol ei ffordd, ac mor llawn bywiogrwydd ac arabedd ag erioed.

:: :: :: :: :: :: :: ::

FROM THE LOG BOOKS

27 : 3 : 1876 —David W. Evans, Master, with one 1st year P. Teacher.

12 : 4 : 1876 —Tea party was given to children in the afternoon and a Public Meeting held in the evening at the School (Considered as formal opening of School). Average attendance 61.6.

6 : 10 : 1876 —This week the children were taught the Lord's Prayer and by the consent and directions of the School Board they were to repeat it every morning.

13 : 1 : 1877 —The 1st Class were started in French.

13 : 1 : 1877 —Reading and Spelling I found to be most backward subjects owing to the district being totally (almost) Welsh.

16 : 2 : 1877—The children were forbidden to talk Welsh in School and in the playground which was enforced in order that they might be brought to pay more attention to English.

13 : 6 : 1878 —We commenced learning a new Song, " Drive the nail aright Boys."

31 : 1 : 1879 —I paid particular attention to the Reading of the upper Standards this week. Found their pronunciation very " Welshy."

21 : 7 : 1879 —Today 5 children were admitted from Llanfihangel N. School, in consequence of that school having been closed.

22 : 3 : 1881 —Commenced Botany with Std. VI this afternoon. Sent the boys to collect flowers as specimens.

18 : 7 : 1883 —I took 94 of my own books to school to form a kind of Circulating Library for the Upper Standards.

4 : 7 : 1884 — Several of the children brought geraniums to school this week.

11 : 7 : 1884 —The children brought a number of stones this afternoon to decorate outside the schoolroom.

25 : 7 : 1884 —The flower gardens were finished.

24 : 4 : 1885 —Principal Edwards visited the School and was highly pleased with its appearance.

25 : 9 : 1885 —8 Boys were sent to collect manure for the flower garden.

6 : 11 : 1885 —Performing the " School Board " Cantata at night.

9 : 6 : 1890 —French taught as a Specific Subject—170 min. per week.

1 : 8 : 1890 —Paid particular attention to French this week. I found that only 2 of Std. V children will be able to get it up.

4 : 9 : 1891 —No fees were collected (save arrears) owing to the coming into force of the Free Education Act.

1 : 11 : 1893 —Registers are not marked owing to confusion caused by an outbreak of fire. The children were immediately sent into the other rooms and a few sent for ladders. Mr. J. T. Rees and Mr. Tom Davies, Bronceiro, and another came in to assist.

3 : 6 : 1895 —The Bilingual Reading Books " Ystraeon Hanes " were only received today. Granville's History Readers were returned.

6 : 6 : 1895 —A great many of the Third Standard cannot read Welsh —not even the most elementary words. Welsh Reading will thus have to be taught from the beginning.

16 : 9 : 1896 —Mr. D. Jenkins, Mus.Bac., Aberystwyth was present this afternoon conducting the rehearsal of the Songs to be sung before the Prince of Wales.

16 : 5 : 1904 —I took the children this afternoon to Talybont to visit Wombwell's Menagerie.

1 : 5 : 1906 —5 or 6 children broke into the school during the Easter Holidays, smashed the Library and Museum.

5 : 1 : 1909 —A piano was procured—worth £25. The Education Authority contribute $\frac{1}{4}$ of the value, but such sum is not to exceed £5.

3 : 2 : 1909 —Mr. O. M. Edwards, Chief Inspector for Wales, paid a visit here today and declared himself well pleased with everything here.

15 : 7 : 1911 —The children were today taken to Aberystwyth to see the King and Queen who were visiting the town for the purpose of laying the foundation stone of the National Library of Wales. The children were taken down in conveyance provided by Sir Ed. W. P. Pryse, Bt., Gogerddan. The arrangements made for the children were very disappointing.

30 : 3 : 1916 —Miss Eluned Morgan of Patagonia, author of "Dringo'r Andes " and other books, called at the school and addressed the children in Welsh. She gave them a very interesting account of schools in that far off country.

11 : 6 : 1918 —Commencing today Cookery Lessons for Girls of the Upper Standards.

30 : 4 : 1920 —A small museum was this week presented to the school by Mr. J. T. Rees, Mus.Bac. It consists of a splendid collection of rare stones and fossils.

4 : 11 : 1921 —The newly appointed District Nurse (Nurse Rees) paid her first visit today.

14:12:1923 —Hot dinners for children started this week. The menu provided included Lentil Soup, Welsh Cawl, Stew.

26 : 9 : 1924 —We received a beautiful gramaphone and records of lectures on Music by Sir Walford Davies—Presented by Mr. Woodward Owen, High Sheriff of Cardiganshire.

8 : 9 : 1925 —It is with pleasure that I place on record the success of an old pupil of this school—Mr. Dewi Morgan, late of Garn House, in winning the chair for the best ode on "Cantre'r Gwaelod" at the National Eisteddfod, Pwllheli.

21 : 7 : 1930 —Mr. T. Ifor Rees, B.A., Consul at Bilbao, an old student of this school, presented the school with a framed copy of the Lord's Prayer in four languages—Welsh, English, Spanish and French.

9 : 1 : 1939 — I, Annie Morgan, Assistant Mistress, am in charge of the School. Mr. Alwyn Jones, B.A., is here to assist (Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg presennol y Sir).

9 : 5 : 1939 —P.C. Owen fitted the pupils for gas-respirators this afternoon.

11 : 9 : 1939 —There is now only one session per day, commencing at 8.30 and ending at 12.30. The building is used by pupils and staff evacuated from Anfield Road, Liverpool, in the afternoons from 1 to 5 o'clock.

17 : 6 : 1940 —Commencement of daily supply of milk for drinking.

21 : 3 : 1941 —The children have subscribed £150 to the Savings Movement.

29 : 9 : 1941 —192 lb. jam—blackberry, wild plum and marrow has been made this week.

26 : 3 : 1942 —The School Savings Group invest £367 during Warship Week.

28 : 5 : 1942 —The School Savings Group invest £602 in the Wings for Victory Campaign.

13 : 5 : 1944 —The sum of £1345 was subscribed—Salute the Soldier week.

22 : 1 : 1946 —New Kitchen in operation—cooked dinners.

4 : 7 : 1946 —13 lb. Beef had to be returned—the quality being much too poor. Price 1/- a lb.

14 : 9 : 1948 —Junior and Infant School only. 20 pupils left for the Modern School Alexandra Road and 7 for Ardwyn Grammar School. No. on Roll 57.

8 : 6 : 1953 —Ennill y wobr gyntaf am Barti Canu a Pharti Cyd-adrodd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Maesteg.

24 : 6 : 1955 —Hot water system in the cloakrooms.

18 : 6 : 1957 —Parti Deusain Canu Penillion yn ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Rhydaman.

24 : 11 : 1966 Sefydlu Cymdeithas Rhieni ac Athrawon.

29 : 3 : 1967 —Rhieni yn codi £153 i gronfa'r ysgol.

5 : 9 : 1967 —Agor Ysgol Feithrin (3-4 oed) Wirfoddol yn cyfarfod mewn ystafell wâg yn yr ysgol.

10 : 4 : 1968 —Rhieni yn codi £158 i gronfa'r Ysgol.

6 : 6 : 1968 —Parti Recorders yn ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llanrwst.

20 : 6 : 1970 —Parti Recorders yn ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Llanidloes.

4 : 9 : 1973 —Egyr yr ysgol heddiw yn ei chartref newydd ym Mheny-garn. Cedwir yr hen ysgol hefyd a'i throi yn Uned Feithrin i blant 3-5 oed.

Lluniau : Mr. Nigel Hopkins, Aberystwyth.